# Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys

## Canllawiau[1] i'r Heddlu, Timau Troseddwyr Ifanc ac awdurdodau lleol

### Ynglŷn â'r Canllawiau hyn

Diben y canllawiau hyn yw:

- helpu awdurdodau lleol i weinyddu'r *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys*
- rhoi cyngor i'r heddlu, Timau Troseddwyr Ifanc ac awdurdodau lleol ar y llwybr atgyfeirio ar gyfer cymorth rhianta a ddarperir ar y cyd â Datrysiad y Tu Allan i'r Llys.

**Cynulleidfa:** Yr Heddlu, Timau Troseddwyr Ifanc ac awdurdodau lleol

**Hysbysiad Preifatrwydd:** Gellir gweld Hysbysiad Preifatrwydd Grantiau Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd Grantiau'n sicrhau y byddwn yn parhau i gydymffurfio â chyfraith a rheoliadau preifatrwydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes arnoch angen mwy o gymorth, cysylltwch â ni trwy dataprotectionofficer@gov.wales.

Dylai **ymholiadau** ynglŷn â'r ddogfen hon gael eu cyfeirio at:


Y Gangen Teuluoedd a Rhianta

Yr Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: StopioCosbiCorfforol@llyw.cymru


[1] Fersiwn 3: diwygiwyd Mawrth 2023

## Cynnwys


| Adran | Pwnc | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Diben craidd a chostau cymwys y grant | 6 |
| 3 | Sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r Grant | 9 |
| 4 | Cymhwysedd ar gyfer y cymorth rhianta | 11 |
| 5 | Llwybr Atgyfeirio | 13 |
| 6 | Hyfforddiant a Goruchwyliaeth | 17 |
| 7 | Egwyddorion a ddylai fod yn sail i ddarparu'r cymorth rhianta teilwredig | 20 |
| 8 | Yr hyn y dylid ymdrin ag ef yn y sesiynau un i un | 22 |
| 9 | Gofynion monitro ac adrodd | 27 |
| 10 | Cyfeiriadau | 30 |
| | Atodiad 1 – Dyrannu'r grant | 32 |

## Adran 1: Cyflwyniad

### Y mater

Pan ddaeth adran 1 o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (Deddf Plant Cymru) i rym ar 21 Mawrth 2022, fe wnaeth ddileu amddiffyniad cosb resymol. Mae cosbi plant yn gorfforol mewn unrhyw ffordd yn awr yn anghyfreithlon yng Nghymru, gan gynnwys gan rieni ac unrhyw un sy'n gweithredu *in loco parentis* mewn unrhyw leoliad yng Nghymru.

Os bydd yr heddlu (ar ôl ystyried y profion tystiolaeth a budd y cyhoedd) yn penderfynu cymryd camau pellach yn erbyn rhiant sydd wedi cosbi ei blentyn yn gorfforol, fe allent gynnig datrysiad y tu allan i'r llys, megis datrysiad cymunedol neu rybuddiad amodol, i osgoi erlyniad posibl trwy'r llysoedd ar gyfer troseddau lefel isel. Un o amodau'r datrysiad y tu allan i'r llys yw cymryd rhan mewn cymorth rhianta[2] y bwriedir iddo ddatblygu arferion rhianta anhreisgar, cadarnhaol.
Mae'r *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys* yn rhoi cyllid i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth rhianta teilwredig hwn.

### Cefndir a chyd-destun

*Nod cyffredinol* Deddf Plant Cymru yw helpu i amddiffyn hawliau plant trwy wahardd rhieni a'r rhai hynny sy'n gweithredu *in loco parentis* yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr â Chymru, rhag cosbi plant yn gorfforol. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cydnabod bod cosbi plant yn gorfforol mewn unrhyw ffordd, ni waeth pa mor fach, yn anghydnaws â hawliau dynol plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 19 (yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag pob math o drais).

*Effaith fwriadedig* Deddf Plant Cymru, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, yw lleihau cosbi plant yn gorfforol a goddefgarwch o hynny ymhellach yng Nghymru.

Ers daeth adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022, nid yw amddiffyniad cosb resymol ar gael mwyach i rieni neu'r rhai hynny sy'n gweithredu *in loco parentis* yng Nghymru, fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod a churo cyffredin.

Bydd rhieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol ar ôl i Adran 1 y Ddeddf ddod i rym yn cyflawni trosedd, ac felly gallent gael eu cyhuddo o drosedd ymosod a churo.

### Proses yr heddlu

Os caiff yr heddlu adroddiad bod plentyn wedi cael ei gosbi'n gorfforol gan oedolyn, byddant yn ymchwilio i'r adroddiad hwnnw ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd, os o gwbl, yn seiliedig ar ffeithiau ac amgylchiadau unigol yr achos. Ym mhob achos, bydd yr heddlu a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn defnyddio dau brawf:

---

[2] Mae cymorth rhianta'n cyfeirio at ddarparu cymorth sy'n ceisio: cynyddu sgiliau rhianta; gwella'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn; gwella dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad rhieni a chynyddu hyder rhieni er mwyn hyrwyddo lles cymdeithasol, corfforol ac emosiynol plant.

- A oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn?
- A yw erlyniad er budd y cyhoedd?

Byddant hefyd yn ystyried beth sydd er pennaf les y plentyn ar ôl trafodaethau amlasiantaethol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill perthnasol (e.e. ysgolion, lleoliadau gofal plant, gweithwyr iechyd proffesiynol).

Os nad oes digon o dystiolaeth i symud ymlaen â'r achos, neu os ystyrir nad yw hynny er budd y cyhoedd, gallai'r heddlu benderfynu cymryd Dim Camau Pellach. Yn yr achos hwn, gallent gyfeirio at wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal, megis Teuluoedd yn Gyntaf.

Os bydd yr heddlu'n penderfynu cymryd camau pellach (e.e. os oes digon o dystiolaeth ac ystyrir ei bod er budd y cyhoedd), byddant yn penderfynu ar y datrysiad mwyaf addas sy'n briodol i'r amgylchiadau ac yn gymesur â'r drosedd a gyflawnwyd. Mae datrysiadau y tu allan i'r llys (Datrysiad Cymunedol[3] a Rhybuddiad Amodol[4]) yn ffordd o ddelio â throseddau llai difrifol ac yn rhoi dewis amgen yn lle erlyn trwy'r llysoedd. Mae datrysiadau y tu allan i'r llys yn canolbwyntio ar adsefydlu ac mae amodau ynghlwm wrthynt, megis dilyn cwrs neu ymyrraeth o fath arall.

**Nifer yr atgyfeiriadau a ddisgwylir i'r cymorth rhianta teilwredig**

Gan weithio gyda'r heddlu, mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y bydd oddeutu 500 – 600 o atgyfeiriadau i'r heddlu y flwyddyn ledled Cymru. Mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar ddata a ddarparwyd gan y pedwar heddlu yng Nghymru (oddeutu 275 o adroddiadau y flwyddyn) ac amcangyfrif o gynnydd tebygol mewn atgyfeiriadau ar sail yr hyn a welwyd yn Seland Newydd (sydd â deddfwriaeth debyg)[5]. Fodd bynnag, gallai'r heddlu benderfynu cymryd dim camau pellach mewn rhai achosion, felly mae'r niferoedd yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer cymorth rhianta ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys yn debygol o fod yn is o lawer na hyn.

**Effaith bosibl ar blant a'u teuluoedd**

Mae Asesiad Effaith Integredig wedi cael ei gwblhau ar gyfer gweithredu Deddf Plant Cymru, gan gynnwys ar Hawliau Plant, y Gymraeg, Cyfiawnder a Chydraddoldebau.

**Buddion darparu cymorth rhianta teilwredig ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys**

Bydd cymorth rhianta priodol teilwredig ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys yn cyfrannu at

- yr amcan o leihau'r defnydd o gosbau corfforol a goddefgarwch ohonynt;

[3] Nid yw Datrysiad Cymunedol yn rhan o gofnod troseddol unigolyn, ond gallai gael ei ddatgelu yn rhan o archwiliad DBS manylach. Mae angen derbyn cyfrifoldeb. Ni fydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau'n arwain at erlyniad am y drosedd, ond gallai'r heddlu ystyried hyn os bydd yr unigolyn yn troseddu eto.
[4] Gellir cynnig Rhybuddiad Amodol i unigolyn sydd wedi cyfaddef cyflawni'r drosedd a phan fydd gan yr heddlu ddigon o dystiolaeth i ddod â chyhuddiad yn ei erbyn. Mae'n rhan o gofnod troseddol unigolyn. Gallai methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau arwain at erlyniad am y drosedd.
[5] Gweler Atodiad 7 Memorandwm Esboniadol y Ddeddf i gael rhagor o wybodaeth https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/memorandwm-esboniadol.pdf

- canlyniadau buddiol i rieni (e.e. cynnydd mewn hyder, a lles) a phlant (e.e. llai o broblemau emosiynol ac ymddygiadol); ac
- atal unigolion rhag gorfod mynd i’r llys a lleihau cyfraddau aildroseddu a ddylai, yn y pen draw, gael effaith gadarnhaol ar eu rhagolygon cymdeithasol ac economaidd tymor hwy.

## Adran 2: Diben craidd a chostau cymwys y grant

Diben y *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys* yw darparu cyllid ar gyfer:

### i. Cyflogi gweithiwr rhianta[6]

Dylai'r gweithiwr rhianta tra medrus a gyflogir ym mhob awdurdod lleol:

- Gysylltu â'r heddlu; cadw cofnodion a rhoi adborth monitro i'r heddlu, Llywodraeth Cymru a'i awdurdod lleol ei hun, fel y bo'n briodol;
- Derbyn atgyfeiriadau gan yr heddlu a gweithio gyda rhieni (gan gynnwys y rhai hynny sy'n iau na 18 oed) a gofalwyr megis rhieni-cu, sydd wedi cytuno i ymwneud â chymorth rhianta 1:1 wedi'i deilwra ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys; a
- Chyflawni rôl gydlynu ar gyfer gwasanaethau cymorth i deuluoedd ehangach er mwyn iddynt weithio'n gyfannol gyda'r unigolyn a'r plentyn/plant lle yr amlygwyd anghenion eraill.

Dylai'r gweithiwr rhianta fod:

- yn dra medrus, hyfforddedig[7] a phrofiadol o ran darparu rhaglenni/ymyriadau rhianta sy'n hwyluso newid ymddygiad;
- yn ddigon profiadol i ddarparu cymorth rhianta teilwredig i ystyried cyd-destun teuluol penodol pob unigolyn;
- yn gallu defnyddio strategaethau rhianta cadarnhaol[8] wedi'u seilio ar dystiolaeth, damcaniaethau newid ymddygiad (e.e. damcaniaeth dysgu cymdeithasol; Model Camau Newid) a damcaniaethau datblygiad plant i greu pecyn cymorth wedi'i deilwra;
- yn gymwys i roi cymorth i rieni sydd â phlant ar draws yr ystod oedran;
- yn fedrus wrth wneud sesiynau'n brofiad cynhwysol, gan gyfathrebu mewn ffordd sy'n osgoi stigmateiddio, beio neu ddigalonni rhieni;
- yn ddeheuig wrth ysgogi a grymuso rhieni i fod yn fwy effeithiol trwy ddefnyddio technegau fel cyfweld ysgogiadol; ac
- yn wybodus am ba gymorth ychwanegol a allai fod ar gael yn yr ardal leol.

Disgwylir y dylai'r unigolyn sy'n cyflawni'r rôl hon gydlynu'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth yn ogystal â darparu'r cymorth rhianta teilwredig.

Gallai awdurdodau lleol ddymuno defnyddio priodoleddau'r gweithiwr rhianta fel y'u hamlinellir yn yr adran hon i greu manyleb yr unigolyn ar gyfer y rôl, a gellid defnyddio'r tasgau a amlinellir yn yr adran hon i ddatblygu swydd-ddisgrifiad.

Dylai'r cymorth hwn gael ei ddarparu:

---

[6] Amser llawn neu ran-amser, yn dibynnu ar y cyllid grant a ddyrennir i'r awdurdod lleol.
[7] Gan gynnwys hyfforddiant diogelu hyd at lefel sy'n gymesur â'i rôl a'i gyfrifoldebau.
[8] Mae rhianta cadarnhaol yn cyfeirio at ymddygiad rhieni wedi'i seilio ar bennaf les y plentyn sy'n anogol, yn rymusol, yn anhreisgar ac yn rhoi cydnabyddiaeth ac arweiniad sy'n cynnwys gosod ffiniau i alluogi'r plentyn i ddatblygu'n llawn.

- Ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda hyblygrwydd ynglŷn â’r lle mwyaf addas i osod y cymorth teilwredig o fewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar.
- Ar sail un i un gan weithiwr rhianta tra medrus sy’n gallu darparu cymorth rhianta ar draws y continwwm anghenion ac wedi’i deilwra i gyd-destun teuluol penodol pob unigolyn.

Gellir bod yn hyblyg ynglŷn â sut mae’r rôl gweithiwr rhianta a ddisgrifir yn y canllawiau hyn yn cael ei chyflawni ym mhob awdurdod lleol. Gallai unigolyn penodol gael ei gyflogi neu gallai manylion penodol y rôl gael eu hychwanegu at swydd-ddisgrifiadau unigolion sydd eisoes yn cael eu cyflogi yn yr awdurdod lleol. Dyma’r meini prawf hanfodol:

- ei bod yn glir gyda phwy y dylai’r heddlu gysylltu pan fydd angen iddynt wneud atgyfeiriad;
- bod atgyfeiriadau gan yr heddlu’n cael blaenoriaeth;
- bod y gweithiwr rhianta y disgwylir iddo ddarparu’r cymorth teilwredig yn rhan o’i rôl bresennol yn meddu ar y capasiti i ymgymryd â’r cymorth; a
- bod adborth monitro’n cael ei roi i’r heddlu a Llywodraeth Cymru.

**Sylwer: Mae’n rhaid rhoi blaenoriaeth i atgyfeiriadau gan yr heddlu ar y cyd â datrysiad y tu allan i’r llys, ond, os oes modd, gall y gweithiwr rhianta gynorthwyo i ddarparu’r cynnig rhianta cyffredinol yn yr ardal leol.**

### ii. Hyfforddiant a goruchwyliaeth

Mae’r *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i’r Llys* hefyd yn darparu cyllid ar gyfer hyfforddi a goruchwylio’r gweithiwr rhianta, a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu cymorth rhianta ehangach yn yr awdurdod lleol. Gweler adran 6 am ragor o wybodaeth.

Mae’n bosibl i’r awdurdod lleol ddefnyddio’r cyllid ychwanegol a ddarperir ar gyfer hyfforddiant a goruchwyliaeth i dalu am gyflog y gweithiwr rhianta a gyflogir ar raddfa uwch, ar yr amod bod gan yr unigolyn hwnnw hyfforddiant digonol ar gyfer y swydd a’i fod yn cael goruchwyliaeth briodol.

### iii. Rhannu dysgu ac arfer da

Gallai awdurdodau lleol ddymuno cydweithio i hwyluso rhannu dysgu ac arfer da.

### iv. Cefnogi ymgysylltiad rhieni

I gynorthwyo rhieni i ymwneud â’r cymorth rhianta teilwredig, gellir defnyddio’r grant i dalu am:

- **Gyfieithu ar y pryd** – os yw sgiliau iaith Gymraeg neu Saesneg unigolion yn gyfyngedig neu os ydynt yn fyddar. Gallai gweithio gyda chyfieithwyr ar y pryd (gan gynnwys dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain) leihau rhwystrau cyfathrebu rhwng y gweithiwr rhianta a'r unigolyn.
- **Cyfleusterau crèche** – os bydd angen hyn i alluogi rhiant i fynychu'r sesiynau.
- **Costau lleoliad a lluniaeth** – lle y bo'n bosibl, dylid defnyddio ystafelloedd yn yr awdurdod lleol na fyddant yn arwain at gostau, ond os nad yw hynny'n bosibl caiff yr awdurdod lleol ddefnyddio'r cyllid i dalu am gostau lleoliad. Ceir defnyddio'r cyllid i dalu am luniaeth hefyd.
- **Prynu TGCh** y gellir ei defnyddio er mwyn i'r gweithiwr rhianta gyflawni ei rôl (mae'n rhaid i werth y gwaith/nwyddau fod islaw trothwy cyfalafu eich sefydliad fel y pennir gan eich polisïau eich hun. Grant refeniw yw hwn).

**Gwariant Nad yw'n Gymwys**

- Cyfraniad tuag at gostau dileu swydd
- Unrhyw gostau cyfalaf ar raddfa fawr neu gostau a delir fel arfer trwy ffynonellau presennol, er enghraifft Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r rhaglen Plant Iach Cymru (bydd angen i ymgeiswyr ddangos ychwanegedd).

***Sylwer: I fod yn gymwys ar gyfer cyllid, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno cynllun ynglŷn â sut mae'n bwriadu gwario'r arian grant yn unol â'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn y canllawiau hyn. Darperir ffurflen gais am grant at y diben hwn.***

## Adran 3: Sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r Grant

### i. Cyllid

Bwriedir i gyllid dangosol ar gyfer awdurdodau lleol o'r *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys* gael ei ddarparu am 3 blynedd o fis Ebrill 2022, ac i gyllid paratoi gael ei ddarparu yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Bydd y defnydd yn cael ei fonitro'n flynyddol fel y gellir gwneud addasiadau, os bydd angen.

Cyllid dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 22/23, 23/24 a 24/25 - £810,000 y flwyddyn i ddarparu cyllid ar gyfer gweithiwr rhianta 0.5 CALI o leiaf hyd at 1.5 CALI ar y mwyaf, yn dibynnu ar faint o blant difreintiedig sy'n byw ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a £5,000 i bob awdurdod lleol ar gyfer hyfforddiant a goruchwyliaeth.

Gweler Atodiad 1 sy'n amlinellu sut y dyrennir y grant a faint y dylai pob awdurdod lleol ddisgwyl ei dderbyn.

### ii. Sut y dyrennir y grant

Cyfrifwyd y cyllid a ddyrennir i bob awdurdod lleol yn seiliedig ar ddata 2016-17[9] am gyfran y plant 0-18 oed yng Nghymru sy'n byw mewn amddifadedd incwm[10] ym mhob ardal.

Gan ei bod yn anodd iawn rhagfynegi'r galw am y gwasanaeth hwn, ystyrir mai data am faint y boblogaeth yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yw'r dangosyddion mwyaf dibynadwy o'r galw posibl. Mae gwaith ymchwil ynglŷn â'r cysylltiad rhwng statws economaidd-gymdeithasol a chosbi corfforol yn tueddu i fod yn anghyson yn aml o ganlyniad i ddiffiniadau gwahanol a ddefnyddir yn seiliedig ar addysg, statws swydd neu incwm. Gallai amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol is fod yn ffactor risg ar gyfer defnydd uwch o gosbi corfforol, efallai oherwydd lefelau uwch o straen (Smith et al 2005; Bunting, 2008; Heilmann 2015). Mae llawer o'r gwaith ymchwil yn y maes hwn wedi cael ei gynnal mewn gwledydd eraill, fell nid yw'n berthnasol i rieni yng Nghymru, o reidrwydd. Fodd bynnag, cydnabyddir bod amddifadedd yn rhan o anghenion mwy cymhleth unigolyn a allai ddefnyddio'r gwasanaeth.

Byddwn yn defnyddio ffurflenni data awdurdodau lleol i fonitro'r defnydd yn flynyddol fel y gellir gwneud addasiadau, os bydd angen.

---

[9] Data 2016-17 oedd y data diweddaraf a oedd ar gael ar y pryd a ddefnyddiwyd ar gyfer y maes incwm ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019, sef prif ddangosydd Llywodraeth Cymru o amddifadedd incwm. Defnyddiwyd data 2016-17 yn y dangosydd hwn er mwyn sicrhau cysondeb rhwng WIMD 2019 a WIMD 2014, a gymhlethwyd o ganlyniad i argaeledd data am gyflwyno Credyd Cynhwysol yn rhannol yng Nghymru.

[10] Unigolyn sy'n byw mewn amddifadedd incwm yw unrhyw hawliwr budd-dal cysylltiedig ag incwm a'i ddibynyddion, yn ogystal â phobl sy'n cael Credyd Cynhwysol.

## Adran 4: Cymhwysedd ar gyfer y cymorth rhianta teilwredig

Mae Deddf Plant Cymru yn berthnasol i unrhyw un yng Nghymru sy’n gofalu am blant (iau na 18 oed). Gallai hwn fod yn:

- Rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol neu unigolyn sydd â hawliau rhiant dros y plentyn neu’r person ifanc.
- Unigolyn sy’n gyfrifol am y plentyn neu’r person ifanc ar adeg y digwyddiad (er enghraifft modrybedd, ewythrod, rhieni-cu, *au pairs*, ffrindiau a gwarchodwyr, oedolion sy’n cynnal clybiau neu grwpiau eraill ar gyfer plant, gan gynnwys mannau dysgu, addoli, chwarae neu hamdden heb eu rheoleiddio).

Yn yr un modd â deddfau eraill, bydd yn berthnasol i ymwelwyr â Chymru hefyd.

Os bydd yr heddlu (ar ôl ystyried y profion tystiolaeth a budd y cyhoedd) yn penderfynu cymryd camau pellach yn erbyn rhiant sydd wedi cosbi ei blentyn yn gorfforol, fe allent gynnig datrysiad y tu allan i’r llys, megis datrysiad cymunedol neu rybuddiad amodol, i osgoi erlyniad posibl trwy’r llysoedd.

Un o amodau’r datrysiad y tu allan i’r llys fyddai cymryd rhan mewn cymorth rhianta y bwriedir iddo ddatblygu arferion rhianta anhreisgar, cadarnhaol.

**Wrth gadarnhau cymhwysedd, bydd yr heddlu:**

- yn penderfynu p’un a fyddai unigolion sydd wedi cyflawni trosedd mewn perthynas â Deddf Plant Cymru yn addas ar gyfer Datrysiad Cymunedol[11] a ph’un a fyddai’n briodol eu hatgyfeirio i’r cymorth rhianta teilwredig a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Dylai’r drosedd fod yn drosedd gyntaf, lefel isel (1-2 ar y Matrics Difrifoldeb)[12] o ymosodiad cyffredin ar y lefel cosb resymol flaenorol.
- yn ystyried hanes troseddu’r unigolyn yn ystod y broses asesu i sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau’r heddlu.
- yn dilyn canllawiau arferol sy’n rheoli’r defnydd o ddatrysiadau y tu allan i’r llys[13] ac yn cael eu harwain gan ffactorau megis derbyn euogrwydd, digonolrwydd tystiolaeth, p’un a yw er budd y cyhoedd, pennaf les y plentyn a ph’un a yw’r drosedd a’r unigolyn a’i cyflawnodd yn addas ac yn gymwys ar gyfer datrysiad y tu allan i’r llys.

---

[11] Tybir mai datrysiad cymunedol fydd y prif ddatrysiad y tu allan i’r llys a ddefnyddir ar y cyd â'r cymorth rhianta wedi'i deilwra. Mae’n bosibl y gallai’r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron benderfynu y byddai rhybuddiad amodol yn ddatrysiad mwy priodol ambell waith. Er enghraifft, pe bai unigolyn yn cyflawni trosedd ychwanegol a’i bod er budd y cyhoedd ac er budd pennaf y plentyn i gynnig cyfle arall i’r unigolyn gael cymorth rhianta.

[12] Offeryn penderfynu yw’r Matrics Difrifoldeb a ddefnyddir i helpu i benderfynu a ellir delio â throseddwr sy’n oedolyn trwy ddefnyddio datrysiad y tu allan i’r llys. Mae wedi’i seilio ar y drosedd a gyflawnwyd, gan ystyried unrhyw ffactorau gwaethygol neu liniarol, yn ogystal â’r niwed y gallai’r troseddwr ei gynrychioli yn seiliedig ar ei hanes troseddu blaenorol. Yn ogystal, dylid ystyried safbwyntiau’r dioddefwr pan fyddant ar gael. Ffynhonnell: Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu https://www.npcc.police.uk/2019%20FOI/Counter%20Terrorism/061%2019%20Gravity%20Matrix.pdf

[13] https://www.npcc.police.uk/Publication/Charging%20and%20Out%20of%20Court%20Disposals%20A%20National%20Strategy.pdf

- yn asesu p’un a yw’r unigolyn a gyflawnodd y drosedd yn barod i ymwneud â’r cymorth rhianta ac yn rhoi caniatâd i’w fanylion gael eu trosglwyddo i’r awdurdod lleol.[14]
- yn ystyried y ffactorau a allai effeithio ar allu’r unigolyn a gyflawnodd y drosedd i gydymffurfio ag amodau’r datrysiad y tu allan i’r llys.

**Bydd unigolion ond yn gymwys ar gyfer cymorth rhianta teilwredig** ar y cyd â datrysiad y tu allan i’r llys os ydynt:

- yn derbyn cyfrifoldeb am y drosedd a gyflawnasant, yn cyfaddef euogrwydd ac wedi mynegi edifeirwch go iawn.
- yn rhiant, gwarcheidwad neu lys-riant neu os oes ganddynt gysylltiad teuluol agos â’r plentyn, er enghraifft rhiant-cu, modryb, ewythr neu ffrind agos i’r teulu. Ni ystyrir bod y cymorth rhianta teilwredig a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn addas ar gyfer unigolion eraill sy’n gweithredu *in loco parentis* sy’n cynnal clybiau neu grwpiau eraill ar gyfer plant, gan gynnwys mannau dysgu, addoli, chwarae neu hamdden heb eu rheoleiddio.
- yn byw yng Nghymru.

| |
|---|
| Bydd y cymorth rhianta teilwredig yn gweithredu ar sail Cymru gyfan. Ni waeth pa ardal yr heddlu y cyflawnwyd y drosedd ynddi, byddai’r unigolyn yn gymwys i gael y cymorth rhianta teilwredig yn yr awdurdod lleol y mae’n byw ynddo. |

**Os yw’r unigolyn yn rhiant sy’n iau na 18 oed:**

- Dylid delio â nhw trwy atgyfeiriad lles oherwydd dylid ystyried eu haeddfedrwydd a’u datblygiad (e.e. trwy’r llwybr atgyfeirio Un Pwynt Mynediad presennol). Fodd bynnag, byddai hynny’n dibynnu ar ba gamau y mae’r heddlu’n ystyried eu bod yn briodol neu’n gyfiawnadwy mewn achos penodol.
- Bydd angen iddynt gael eu hystyried yn unigol (hanes troseddu a chosbau/canlyniadau hyd yma) a bydd Timau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru yn gweithio gyda’r heddlu perthnasol i gytuno ar y ffordd ymlaen bob tro.
- Os ystyrir mai datrysiad y tu allan i’r llys yw’r canlyniad mwyaf addas, dylai’r heddlu ddefnyddio’r fframwaith presennol[15] ynglŷn â chymhwyso datrysiadau y tu allan i’r llys yn ymarferol ar gyfer pobl ifanc iau na 18 oed.
- Os ystyrir ei bod yn briodol, bydd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn atgyfeirio’r person ifanc i’r cymorth rhianta a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar y cyd â datrysiad y tu allan i’r llys ac yn cysylltu â’r awdurdod lleol o ran monitro ymgysylltiad.

[14] Mae ymwneud yn wirfoddol yn cyd-fynd â phwysigrwydd awydd unigolyn i newid, y credir ei fod yn fwy tebygol o gryfhau cymhelliad yr unigolyn i gymryd rhan yn y cynllun a newid ei ymddygiad yn llwyddiannus.


[15] Datrysiadau y Tu Allan i’r Llys ar gyfer Pobl Ifanc: Canllaw i’r Heddlu a Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc (publishing.service.gov.uk)

# Adran 5: Llwybr Atgyfeirio

## i. Rolau a chyfrifoldebau

Rôl yr heddlu:

- Ystyried cymhwysedd (gweler adran 4)
- Asesu anghenion yr unigolyn sydd wedi cyflawni'r drosedd (sgrinio cychwynnol) i ffurfio darlun o'r plentyn ac amgylchiadau'r teulu. Dylai hyn gael ei lywio gan wybodaeth gan asiantaethau eraill (er enghraifft, trwy'r hyb diogelu, lle y bo'n briodol). Bydd Rhingyll y Ddalfa'n asesu anghenion lefel uchel – dylai ffactorau risg y dioddefwr gael eu hymgorffori yn yr asesiad.
- Trafod yr achos gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac ymgysylltu ag asiantaethau eraill perthnasol (e.e. iechyd a darparwyr addysg/gofal plant) i ganfod a ddylai unrhyw faterion sylfaenol gael eu hystyried wrth benderfynu p'un a fyddai'r cymorth rhianta wedi'i deilwra'n briodol.
- Egluro'r hyn a ddisgwylir gan yr unigolyn wrth ymwneud â'r cymorth rhianta teilwredig a sicrhau bod yr unigolyn yn llwyr ddeall canlyniadau diffyg cydymffurfio a buddion ymgysylltu. Bydd hyn yn cael ei amlinellu mewn taflen ar gyfer rhieni a gynyrchir gan Lywodraeth Cymru[16].
- Os yw'r unigolyn yn gymwys, dylai'r heddlu ei atgyfeirio i wasanaeth cymorth rhianta'r awdurdod lleol perthnasol a ddarperir trwy'r *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys*. Dyma'r awdurdod lleol y mae'r unigolyn yn byw ynddo.
- Dylai'r heddlu atgyfeirio i'r gwasanaeth cymorth rhianta trwy'r gweithdrefnau safonol presennol.
- Cael caniatâd gan yr unigolyn i drosglwyddo ei fanylion i'r awdurdod lleol.
- Sicrhau bod protocolau rhannu data a gwybodaeth boddhaol ar waith i rannu gwybodaeth berthnasol am yr unigolyn gyda'r awdurdod lleol.




[16] Pan fydd yr heddlu, Timau Troseddwyr Ifanc ac awdurdodau lleol wedi cytuno arni, caiff ei chysylltu â'r canllawiau hyn fel atodiad.

Rôl Timau Troseddwyr Ifanc

Bydd Timau Troseddwyr Ifanc yn gysylltiedig os yw'r unigolyn yn rhiant sy'n iau na 18 oed

- Bydd angen i'r person ifanc gael ei ystyried yn unigol (hanes troseddu a chosbau/canlyniadau hyd yma) a bydd Timau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru yn gweithio gyda'r heddlu perthnasol i gytuno ar y ffordd ymlaen bob tro.
- Os ystyrir mai datrysiad y tu allan i'r llys yw'r canlyniad mwyaf addas, dylai'r heddlu ddefnyddio'r fframwaith presennol[17] ynglŷn â chymhwyso datrysiadau y tu allan i'r llys yn ymarferol ar gyfer pobl ifanc iau na 18 oed.
- Bydd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn atgyfeirio'r person ifanc i'r cymorth rhianta a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys.

Rôl y gwasanaethau cymdeithasol

- Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn trafod yr achos gyda'r heddlu.
- Cynnal asesiad cymesur o'r plentyn a'r teulu yn rhan o'r broses Asesu ar gyfer Gofal a Chymorth. Byddai'n fuddiol i'r gweithiwr rhianta gael ei gynnwys yn y gwaith hwn.
- Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn ymwybodol o deuluoedd sy'n cymryd rhan yn yr ymyrraeth rianta fel un o amodau datrysiad y tu allan i'r llys oherwydd dylai'r heddlu fod wedi trafod yr achos gyda nhw.

Rôl yr awdurdod lleol

- Darparu cymorth rhianta teilwredig gyda chyllid a ddarperir gan y *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys* o fewn 3 mis o atgyfeiriad gan yr heddlu[18].
- Adrodd yn ôl i'r heddlu ynglŷn â ph'un a yw'r unigolyn sy'n derbyn cymorth rhianta ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys wedi ymwneud â'r cymorth a gynigiwyd.
- Adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar lefelau'r galw am y gwasanaeth cymorth rhianta teilwredig a mesur canlyniadau datblygiad (y pellter a deithiwyd).
- Os yw'r rhiant eisoes yn cael cymorth rhianta gan yr awdurdod lleol (e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf), dylai'r gweithiwr rhianta ystyried sut byddai'r cymorth hwn yn ategu'r sesiynau 1:1 wedi'u teilwra. Os penderfynir y dylai'r rhai hynny sydd eisoes yn darparu cymorth rhianta barhau i weithio gyda'r rhiant yn lle'r gweithiwr/gweithwyr rhianta a gyflogir trwy'r grant, dylent sicrhau bod y sesiynau'n ymdrin â'r pynciau allweddol a amlinellir yn adran 8. Y gweithiwr rhianta a gyflogir trwy'r grant fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r heddlu.

---

[17] Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ar gyfer Pobl Ifanc: Canllaw i'r Heddlu a Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc (publishing.service.gov.uk)


[18] Mae'n bosibl y bydd hyblygrwydd ynglŷn â hyn os yw'r unigolyn yn ymgysylltu'n dda ond teimlir bod angen darparu cymorth am gyfnod hwy neu oherwydd bod pryderon diogelu ychwanegol wedi cael eu hamlygu. Dylai awdurdodau lleol drafod hyn gyda'r heddlu.

## ii. Llwybr Atgyfeirio

Mae’r diagram isod yn awgrymu’r llwybr ar gyfer atgyfeiriadau gan yr heddlu i’r cymorth rhianta teilwredig a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Dylai pob awdurdod lleol ac ardal heddlu berthnasol benderfynu ar y llwybr atgyfeirio symlaf a mwyaf priodol ar gyfer eu hardal a’r ffordd fwyaf priodol o reoli atgyfeiriadau (e.e. ystyried defnyddio ffurflen atgyfeirio (hysbysu) a phenderfynu pwy fydd yn adolygu ffurflenni atgyfeirio ac ati).

**Llwybr awgrymedig ar gyfer atgyfeiriadau gan yr heddlu i'r cymorth rhianta teilwredig**

(Dylai pob awdurdod lleol ac ardal heddlu berthnasol benderfynu ar y llwybr atgyfeirio symlaf a mwyaf priodol ar gyfer eu hardal a'r ffordd fwyaf priodol o reoli atgyfeiriadau.)



## Adran 6: Hyfforddiant a Goruchwyliaeth

Mae'r *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys* yn darparu cyllid ar gyfer hyfforddiant a goruchwyliaeth hefyd.

### i. Hyfforddiant

Gellir defnyddio'r cyllid i hyfforddi'r gweithiwr rhianta a gyflogir i gyflwyno'r sesiynau un i un a ddarperir ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys yn ogystal â'r tîm cymorth rhianta ymyrraeth gynnar ehangach. Gellir darparu hyfforddiant ar y lefelau canlynol:

a) **Sylfaenol** (ymwybyddiaeth o wybodaeth a magu hyder) – er enghraifft, rhoddir sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth o wybodaeth i'r staff ynglŷn â Deddf Plant Cymru ac egwyddorion craidd rhianta cadarnhaol;
b) **Uwch** (hyder ac arferion) – er enghraifft, rhoddir hyfforddiant i'r staff ar sut i gynorthwyo rhieni i ddefnyddio strategaethau rhianta cadarnhaol. Dylai hyn gynnwys cyflwyno rhaglenni rhianta a sut i weithio gyda rhieni i newid ffordd o feddwl ac ymddygiad.
c) **Arbenigol** – er enghraifft, mae aelodau staff sydd eisoes yn weithwyr rhianta profiadol yn cael hyfforddiant ar sgiliau arbenigol megis Cyfweld Ysgogiadol neu Arweiniad Fideo ar Ryngweithio (VIG)

Dylai awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr sydd â phecyn hyfforddi wedi'i werthuso'n dda a lle y ceir tystiolaeth bod y cwrs yn gwella hyder a chymhwysedd ymarferwyr. Dylid ystyried y Gymraeg ac anghenion hygyrchedd yn rhan o'r hyfforddiant a gynigir.

Dyma enghreifftiau o hyfforddiant addas:

- Hyfforddiant ar gyflwyno rhaglenni rhianta cadarnhaol wedi'i seilio ar dystiolaeth fel yr amlinellir yn Atodiadau B, Ch a Dd Canllawiau Cymorth Rhianta Llywodraeth Cymru
- Hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o Ddulliau wedi'u Safoni ar gyfer Mesur Effaith ('Y Pellter a Deithiwyd') fel y'u hamlinellir yn Atodiad C Canllawiau Cymorth Rhianta Llywodraeth Cymru
- Hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth o drawma heb ei ddatrys neu Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a sut mae hyn yn gallu effeithio ar rianta.
- *Cyfweld Ysgogiadol* – dull therapiwtig yw hwn y bwriedir iddo greu sgwrs ynglŷn â newid yn bwrpasol, heb geisio argyhoeddi'r unigolyn o'r angen i newid na dweud wrtho sut i newid. Mae nifer o sgiliau cwnsela sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i dechnegau cyfweld ysgogiadol, gan gynnwys cwestiynau penagored, gwrando myfyriol, cadarnhau a chrynhoi.
- *Dull Solihull* – mae'n rhoi fframwaith i weithwyr proffesiynol ar gyfer ystyried a gweithio gyda'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn.
- *GroBrain* – mae'n hyfforddi ymarferwyr sy'n gweithio gyda rhieni a phlant bach i integreiddio iechyd meddwl plant bach yn eu harferion rheolaidd.
- *Model Partneriaeth Teulu* – mae'r dull hwn wedi'i seilio ar fodel penodol o'r broses helpu sy'n dangos sut mae nodweddion a sgiliau penodol cynorthwy-

ydd, o'u defnyddio mewn partneriaeth, yn galluogi rhieni a theuluoedd i oresgyn eu hanawsterau, datblygu cryfderau a chydnerthedd a chyflawni eu nodau'n fwy effeithiol.

- *Arweiniad Fideo ar Ryngweithio* (VIG) – ymyrraeth fer wedi'i seilio ar gryfderau yw hyn ar gyfer rhieni plant o bob oed. Mae'n amlygu ac yn adeiladu ar eiliadau cydgordiol o ryngweithio rhwng y rhiant a'r plentyn. Mae Ymarferydd VIG yn cynorthwyo rhieni i wylio micro-eiliadau o fideo wedi'u seilio ar gryfderau, a myfyrio arnynt gyda'i gilydd.
- *Gwrthsefyll Anhreisgar* – mae rhieni'n cael eu hyfforddi i leddfu sefyllfa a lleihau gwrthdaro, ar yr un pryd â gwrthod ildio i ofynion afresymol. Mae rhieni'n estyn allan i'w plentyn a chymodi ag ef gan ddefnyddio dulliau penodol iawn sy'n gallu gweithio'n dda i atal sefyllfa rhag gwaethygu o ran ymddygiad megis gorfodaeth a chosbi corfforol.
- *Cylch Sicrwydd* – cynorthwyir rhieni i gysylltu â'u plentyn a myfyrio ar ei anghenion am ymlyniad er mwyn hyrwyddo ymlyniad sicr gyda phlentyn.
- *Hyfforddiant ar ddulliau wedi'u llywio gan drawma* – mae'n bosibl y bydd rhieni a atgyfeirir i'r cymorth rhianta teilwredig wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a mathau eraill o adfyd yn ystod plentyndod, a allai effeithio ar eu cyflwr emosiynol sy'n gysylltiedig â defnyddio cosbi corfforol. Gallai profiadau rhiant yn ystod plentyndod effeithio ar y ffordd y mae'n magu plant ac yn defnyddio cosbi corfforol hefyd. Felly, gallai hyfforddiant sy'n rhoi ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac arweiniad ar elfennau allweddol dull wedi'i lywio gan drawma fod yn ddefnyddiol.
- *Chwarëusrwydd – Derbyniad – Chwilfrydedd – Empathi (PACE)* – triniaeth sy'n canolbwyntio ar ymlyniad yw hyn ar gyfer trawma a chamdriniaeth yn ystod plentyndod a ddatblygwyd gan Dr Dan Hughes (seicolegydd clinigol sy'n arbenigo mewn trawma yn ystod plentyndod). Mae'n ceisio cynorthwyo oedolion i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus, cysylltiadau emosiynol, rheoli emosiynau ac ymdeimlad o sicrwydd gyda'u plentyn.
- *2 Law Rhianta a Chysylltu cyn Cywiro* – diben hyn yw cynorthwyo rhieni i ymdopi â heriau magu plant sydd wedi cael eu trawmateiddio yn eu hamgylchedd rhianta cynnar.
- *Dulliau Adferol (Arferion)* – mae'r rhain yn darparu sgiliau holi, gwrando, myfyrio a datrys problemau ac yn cefnogi datblygiad empathi, cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth emosiynol. Mae dull adferol yn rhoi fframwaith ar gyfer atgyweirio neu ailadeiladu perthnasoedd.
- *Therapi ymddygiad dialectig* (DBT) – math o therapi siarad yw hwn wedi'i seilio ar therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT). Fe'i haddaswyd ar gyfer pobl sy'n teimlo emosiynau'n ddwys iawn.
- *Hyfforddiant Diogelu Lefel 3+* sy'n ymdrin â materion megis cydymffurfio cudd.

### ii. Goruchwyliaeth

Dylai'r gweithiwr rhianta a gyflogir i gyflwyno'r sesiynau un i un ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys gael goruchwyliaeth glinigol neu broffesiynol reolaidd gan ei reolwr i'w gefnogi yn ei rôl.

Mae goruchwyliaeth yn fan diogel lle gall y gweithiwr rhianta:

- drafod unrhyw anawsterau y mae'n eu hwynebu;
- adolygu ei arferion dydd i ddydd; a
- chael cymorth ar gyfer unrhyw ofynion emosiynol a phersonol a osodir arno.

Ar gyfer rheolwyr, mae'n gyfle i:

- sicrhau bod y gweithiwr rhianta'n bodloni'r egwyddorion a'r disgwyliadau sy'n angenrheidiol i ddarparu cymorth rhianta o ansawdd da.
- asesu cymwyseddau a sgiliau presennol ymarferwyr ac ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu.

## Adran 7: Egwyddorion a ddylai fod yn sail i ddarparu'r cymorth rhianta teilwredig

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylent fod yn sail i'r dull cyffredinol o ddarparu'r cymorth rhianta teilwredig.

Dylai'r cymorth rhianta:

- ✓ fod yn berthynol (e.e. ymlyniad, y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn), yn adferol, yn gynhwysol ac yn hygyrch, ac fe ddylai fod yn ystyriol o anghenion penodol ac ychwanegol, diwylliannau a ffydd amrywiaeth eang o rieni;
- ✓ adlewyrchu'r hawliau plant a amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[19] ac ystyried llais y plentyn;
- ✓ bod yn briodol i fodloni anghenion rhieni sydd â phlant o wahanol oedrannau, rhieni ifanc ac ystyried unrhyw anghenion ychwanegol a allai fod gan y plentyn neu'r rhiant;
- ✓ dilyn canllawiau ar ddiogelu plant ac oedolion bob amser[20] [21]. Dylai'r rhai sy'n asesu anghenion rhianta neu sy'n darparu gwasanaethau cymorth rhianta allu adnabod materion diogelu a gwybod pryd ac i bwy y dylid eu hatgyfeirio;
- ✓ bodloni dewisiadau rhieni i gael cymorth rhianta yn Gymraeg trwy gynnig cymorth dwyieithog i rieni'n rhagweithiol;
- ✓ amlygu beth yw nod yr ymyrraeth a'r hyn y disgwylir i'r ymyrraeth ei gyflawni;
- ✓ bod wedi'i seilio ar anghenion canfyddedig neu asesedig, yn hyblyg a chanolbwyntio ar yr unigolyn, a chyda phwyslais ar wella canlyniadau i blant a theuluoedd;
- ✓ cael ei ddarparu gan ddefnyddio dull wedi'i seilio ar gryfderau[22] a bod yn ystyriol o'r straen sy'n wynebu teuluoedd yn eu bywydau;
- ✓ cael ei ddarparu gydag empathi a chan ddangos agwedd anfarnol ac eto gwybodus (gwybod am y digwyddiad ond nid canolbwyntio arno), er mwyn ffurfio perthynas a dod i adnabod y rhiant a chyd-destun y teulu;
- ✓ cael ei lywio gan dystiolaeth[23] a'i seilio ar ddamcaniaeth neu resymeg ynglŷn â pham mae'r ymyrraeth yn debygol o gyflawni'r nod a fwriedir;
- ✓ cael cynllun sesiwn ar gyfer dysgu a dull darparu awgrymedig;

---

[19] Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n amddiffyn hawliau dynol plant iau na 18 oed Hawliau Plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU

[20] Mae Cyfrol 5 Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Canllawiau ar Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg yn amlinellu sut y dylai'r holl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gydweithio i amddiffyn plant rhag niwed working-together-to-safeguard-people-volume-5-handling-individual-cases-to-protect-children-at-risk.pdf (gov.wales)

[21] Canllaw Ymarfer Diogelu Cymru, pan gaiff ei gyhoeddi

[22] Mae dull wedi'i seilio ar gryfderau'n digwydd pan fydd gweithwyr allweddol yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar wydnwch, ffactorau amddiffynnol a chryfderau.

[23] Defnyddio gwybodaeth gyfredol am dystiolaeth gadarn o waith ymchwil allanol a gwerthuso annibynnol wrth benderfynu sut i weithio gyda rhieni unigol. Dylai ymyriadau ddefnyddio'r dystiolaeth orau y gwyddys amdani i gael canlyniadau da ar gyfer plant a rhieni. Gweler – "Gwerthuso'r dystiolaeth: Yr hyn y mae angen i bob ymarferydd ei wybod i ddarparu cymorth rhianta wedi'i seilio ar dystiolaeth", yr Academi Genedlaethol ar gyfer Ymarferwyr Rhianta – i gael rhagor o wybodaeth. What-all-practitioners-need-to-know.pdf (careforthefamily.org.uk)

- ✓ cael ei ddarparu gan aelodau staff cymwys neu sydd wedi'u hyfforddi'n briodol sydd â phrofiad o gyflwyno rhaglenni rhianta a rhaglenni sy'n hwyluso newid ymddygiad;
- ✓ casglu adborth gan rieni (ar lafar neu'n ysgrifenedig) i asesu p'un a gyflawnodd yr ymyrraeth ei nod/amcan; a
- ✓ chysylltu â gwasanaethau eraill a chymorth arall i fodloni'r anghenion ehangach a amlygwyd.

***Sylwer: Dylai cymorth gael ei ddarparu o fewn 3 mis o atgyfeiriad gan yr heddlu a dylid adrodd ar y canlyniadau i'r heddlu (gweler adran 9)***

## Adran 8: Yr hyn y dylid ymdrin ag ef yn y sesiynau un i un

Dylai'r cymorth rhianta a roddir ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys gael ei ddarparu ar sail un i un yn hytrach na thrwy ddefnyddio rhaglen rianta strwythuredig bresennol wedi'i seilio ar dystiolaeth. Trwy wneud hyn, gellir darparu pecyn cymorth teilwredig i'r unigolyn, sy'n ystyried amrywiaeth o amgylchiadau teuluol, anghenion a'r nodau a amlygwyd gan yr unigolyn.

Nid oes nifer benodedig o sesiynau y dylid eu darparu o dan y grant. Ni ddisgwylir ychwaith y dylai'r pynciau a amlinellir isod fod yn sail i sesiynau unigol nac y dylid eu cyflwyno mewn unrhyw drefn benodol. Dylai'r nifer fwyaf priodol o sesiynau fod wedi'i seilio ar anghenion asesedig yr unigolyn. Fodd bynnag, dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol bod yr unigolion sy'n cael y cymorth rhianta teilwredig yn ymwneud â'r cynllun oherwydd troseddu ar lefel gymharol isel. Yn unol â'r egwyddor cymesuredd, dylai nifer y sesiynau y disgwylir i unigolyn gymryd rhan ynddynt adlewyrchu hyn.

Dylai'r sesiynau gael eu dylunio i fodloni anghenion penodol rhieni unigol, megis rhieni o leiafrifoedd ethnig, tadau a rhieni ifanc nad yw gwasanaethau prif ffrwd yn darparu ar eu cyfer yn llawn, o bosibl.

Bwriedir i'r cymorth rhianta 1:1 teilwredig gael ei ddarparu i'r unigolyn sydd wedi cyflawni'r drosedd. Fodd bynnag, gallai'r awdurdod lleol gynnig cymorth i'r rhiant arall ar yr amod yr ystyrir bod hynny'n ddiogel ac na fyddai'n effeithio ar ymgysylltiad cadarnhaol yr unigolyn a atgyfeiriwyd gan yr heddlu. Dylai'r awdurdod lleol gadarnhau gyda'r heddlu y byddai hyn yn briodol cyn estyn y gwahoddiad.

Gellir darparu'r sesiynau un i un yn rhithwir[24] (yn fyw ar y pryd, nid cynnwys wedi'i recordio) neu drwy ddulliau darparu wyneb yn wyneb traddodiadol, yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn a rheoliadau Covid-19 cyfredol.

Er bod gan awdurdodau lleol hyblygrwydd ynglŷn â pha gymorth i'w ddarparu er mwyn ystyried amrywiaeth o anghenion ac amgylchiadau, disgwylir y dylai'r sesiynau ymdrin â'r pynciau canlynol:

- **Ymwybyddiaeth bod y gyfraith wedi newid a pham**

Mae'n bwysig bod unigolion yn deall bod y gyfraith wedi newid a pham.

Daeth Deddf Plant Cymru i rym ar 21 Mawrth 2022 felly mae cosbi plant yn gorfforol yn awr yn anghyfreithlon yng Nghymru. Nod Deddf Plant Cymru yw helpu i amddiffyn hawliau plant a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru. Mae gwybodaeth am y newid i'r gyfraith ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau canlynol a allai fod yn ddefnyddiol:

Fideo esboniadol

Nodyn briffio

Taflen i rieni

[24] Ystyriwch b'un a fydd mynediad at y rhyngrwyd yn rhwystr rhag darparu a ph'un a allai diffyg man tawel i unigolyn ymwneud â'r ymyrraeth effeithio ar y sesiynau.

- **Y rhesymau pam mae'r rhiant wedi defnyddio cosbi corfforol**

Dylai'r sesiynau un i un ddadansoddi'r rhesymau pam mae'r unigolyn wedi defnyddio cosbi corfforol. Er enghraifft, efallai bod mater iechyd meddwl neu straen benodol sy'n effeithio ar y teulu. Efallai nad yw'r rhiant yn ymwybodol o strategaethau cadarnhaol eraill ar gyfer rheoli ymddygiad neu sut i'w defnyddio'n briodol. Gallai fod yn ddigwyddiad untro oherwydd straen digwyddiad penodol neu gallai fod yn batrwm ymddygiad sydd wedi ymwreiddio.

Gallai credoau craidd, gwerthoedd a theimladau rhiant, ei brofiadau ei hun yn ystod plentyndod, dylanwad teulu a ffrindiau a'i adnoddau a'i wybodaeth ei hun effeithio ar y ffordd y mae'n magu plant ac yn defnyddio cosbi corfforol. Mae ymddygiad yn llai tebygol o newid, yn enwedig os yw'n hir sefydlog ac wedi'i ymsefydlu mewn systemau cred sylfaenol, oni bai bod y gweithiwr yn deall rhywfaint am gyd-destun sylfaenol yr ymddygiad a'r hyn sy'n ei sbarduno.

- **Pam nad yw'n beth da i blant gael eu cosbi'n gorfforol a'r effaith bosibl arnynt**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo egwyddorion rhianta cadarnhaol. Mae'r ymagwedd hon yn gyson ag egwyddorion sylfaenol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef bod gan blentyn yr hawl i gael gofal, i gael ei amddiffyn, i gael ei gynnwys mewn penderfyniadau ac i gael magwraeth sy'n rhydd rhag trais a thriniaeth ddiraddiol.

Mae cymysgedd cymhleth o ffactorau sy'n effeithio ar ddefnydd o gosbi corfforol gan rieni, gan gynnwys oedran a rhywedd y rhieni a'r plentyn; lefelau straen a chymorth; ansawdd y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn; defnydd o alcohol/cyffuriau; a ph'un a gosbwyd y rhieni'n gorfforol pan oedden nhw'n blant (Smith et al, 2004; Robertson, 2017). Un o ffactorau risg cosbi llym yw'r gred bod rhiant yn ddi-rym a bod plentyn yn rheoli ei ymddygiad (Berlin et al, 2013; Taylor et al, 2016).

Er bod llawer o rieni'n credu'n gyffredinol fod cosbi'n gorfforol yn anghywir, mae rhai sefyllfaoedd lle y gallent gredu ei fod yn fwy derbyniol. Byddai hyn yn cynnwys plant sy'n dangos ymddygiad anniogel (h.y. plentyn bach yn rhedeg i'r ffordd). Efallai na fydd rhieni'n teimlo'n gyfforddus yn defnyddio cosbi corfforol i reoli ymddygiad eu plentyn, ond fe allent deimlo bod rhaid ei ddefnyddio fel 'dewis olaf' neu fel ffordd o sicrhau diogelwch eu plentyn (Ghate et al, 2003; Smith et al, 2004; Gravitas, 2005; Llywodraeth Cymru, 2014; Holden, 2014).

Mae rhieni'n llai tebygol o ddefnyddio cosbi corfforol os ydynt yn credu y bydd rhianta cadarnhaol yn cael effaith fuddiol ar ganlyniadau eu plentyn (Smith et al, 2004) neu y bydd defnyddio cosbi corfforol yn cael canlyniadau negyddol (Stokes et al, 2005; Holden et al, 2014).

Mae angen egluro wrth rieni nad yw unrhyw fath o gosbi corfforol yn ddewis da i ddisgyblu eu plentyn mewn unrhyw amgylchiadau. Y rheswm am hynny yw:

**Yn gyntaf,** yn dilyn gweithredu Deddf Plant Cymru ar 21 Mawrth 2022, mae cosbi plant (0-18 oed) yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.

**Yn ail,** mae gwaith ymchwil (Carter-Davies a Bristow, 2018; Heilman, 2015; Heilman et al, 2021) yn awgrymu:

- bod cosbi corfforol yn niweidiol i blant, o bosibl, ym mhob math o amgylchiadau;
- bod cosbi corfforol yn gysylltiedig â chanlyniadau negyddol;
- nad yw cosbi corfforol yn arwain at unrhyw fuddion datblygiadol tymor hir;
- nad yw cosbi corfforol yn fwy effeithiol o ran newid ymddygiad tymor byr, o gymharu â dulliau eraill anghorfforol;
- nad yw cosbi corfforol yn effeithiol o ran gwella ymddygiad plant;
- bod cosbi corfforol yn gysylltiedig â phroblemau ymddygiadol megis ymddygiad ymosodol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Yn drydydd,** gallai roi'r argraff i blant bod cosbi corfforol yn ffordd dderbyniol o ddelio â theimladau cryf.

**Yn bedwerydd,** mae ffyrdd cadarnhaol gwell o ddisgyblu plant.

- **Ffurfio perthynas gadarnhaol rhwng y rhiant a'r plentyn**

Mae corff mawr o dystiolaeth sy'n awgrymu bod ansawdd y rhianta a'r gofal a gaiff blentyn yn ei flynyddoedd cynnar ac ymwneud gan rieni mewn datblygiad plentyn yn ffactor arwyddocaol o ran sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant (Asmussen et al, 2016; Moullin et al 2014; O'Connor a Scott, 2007; Rees, 2007).

Dylid rhoi gwybod i rieni am eu rôl allweddol wrth ffurfio cyfleoedd bywyd eu plentyn yn y dyfodol trwy ddarparu amgylchedd diogel, sicr, anogol ac ysgogol a thrwy roi cyfleoedd i'w plant chwarae, sy'n gallu meithrin eu datblygiad corfforol, meddyliol a chymdeithasol.

Dangoswyd mai'r hyn sy'n sail i sicrwydd ymlyniad yw rhiant sy'n ymateb yn ystyriol i arwyddion ac anghenion ei blentyn. Pan fydd y rhai sy'n rhoi gofal i blant yn anymatebol, yn ddisylw ac yn anghyson neu'n elyniaethus wrth ryngweithio â nhw, gall ymlyniad ansicr ddatblygu.

Gallai helpu i fynd i'r afael ag anghenion rhieni a gwella eu sensitifrwydd a'u hymatebolrwydd i anghenion eu plentyn; cryfhau rhyngweithio rhwng y rhiant a'r plentyn a hyrwyddo ymlyniad cadarnhaol (e.e. darparu cynhesrwydd a strwythur; gwrando ac empatheiddio â'u plentyn; delio â gwrthdaro mewn ffordd ddigyffro sy'n ceisio datrys problem yn hytrach na ffordd gosbol; adnabod/darllen ciwiau'r plentyn, gan roi sylw cadarnhaol o ansawdd da i'r plentyn trwy chwarae a gyfeirir gan y plentyn, canmol, darllen, canu ac ati) wella ansawdd y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn; hyrwyddo ymlyniad sicr ac efallai helpu i leihau ymddygiad rhianta anghyson a gelyniaethus. Dylai cynorthwyo rhieni i ffurfio perthynas gadarnhaol â'u plentyn fod yn sail i'r sesiynau 1:1.

- **Cynorthwyo unigolion i reoli eu dicter trwy adnabod sbardunau a'u helpu i ddatblygu strategaethau ymdopi priodol**

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod cysylltiad cryf rhwng cyflwr emosiynol rhiant a'r defnydd o gosbi corfforol. Canfuwyd bod dicter y fam, rhwystredigeth rhieni a straen rhianta yn rhagfynegi'r defnydd o gosbi corfforol (Ghate, 2003; Gravitas, 2004; Halpenny et al, 2010; Bunting, 2010; Robertson, 2017)

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo eu bod yn cael eu profi i'r eithaf, ar adegau. Weithiau, mae rhieni'n cael trafferth rheoli eu hemosiynau a'u hymatebion. Bydd cynorthwyo rhieni i ddysgu sut i reoli eu dicter a rheoleiddio eu hemosiynau o fudd i'w perthynas â'u plentyn a gallai eu helpu i osgoi defnyddio cosbi corfforol yn y dyfodol.

Mae'r wefan Magu Plant: Rhowch Amser Iddo yn rhoi gwybodaeth am sut i reoli straen a dicter a allai fod yn ddefnyddiol.

- **Gwybodaeth am ddatblygiad plant**

Dylid rhannu gwybodaeth gyda rhieni ynglŷn â chamau datblygiad plant i'w helpu i ddeall nad yw eu plentyn bob amser yn gallu rheoli ei ymddygiad a'i emosiynau. Gellir rhoi gwybod i rieni hefyd sut mae'r ymddygiad maen nhw'n ei ddangos yn gallu ffurfio ymddygiad eu plentyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (e.e. mae'r ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol yn cynnig bod plant yn dysgu ffyrdd o reoli eu hemosiynau, datrys anghydfodau ac ymwneud ag eraill trwy arsylwi eu rhieni neu drwy'r ffordd yr ymatebwyd i'w hymatebion nhw). Gallai hefyd helpu rhieni i gael disgwyliadau realistig sy'n briodol i oedran a cham datblygu'r plentyn.

Mae rhagor o wybodaeth am ddatblygiad plant ar gael ar y wefan Magu Plant: Rhowch Amser Iddo.

- **Strategaethau ar gyfer ffyrdd cadarnhaol o reoli ymddygiad**

Dylid rhoi strategaethau i unigolion i'w galluogi i ddeall anghenion datblygiadol eu plentyn a strategaethau anhreisgar sy'n briodol i oedran ar gyfer atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol plant (e.e. canmol, gwobrwyo ymddygiad da, modelu ymddygiad cadarnhaol) a'u hannog i beidio ag ymddwyn yn negyddol ac yn ymosodol (e.e. peidio ag ildio i unrhyw ofynion a wnaeth blentyn cyn iddo ddechrau strancio; tynnu sylw plant ifanc a chanlyniadau addas).

Mae gwaith ymchwil (gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar, 2006) yn awgrymu bod ymyriadau'n fwyaf effeithiol os ydynt:

i. Yn rhoi gwybodaeth i rieni sy'n berthnasol i'r problemau penodol maen nhw'n eu cael gyda'u plentyn; ac
ii. Yn rhoi cyfleoedd i rieni ymarfer sgiliau newydd a chael adborth unigol gan ymarferwyr (e.e. trwy chwarae rôl a rhoi cynnig ar weithgareddau ymarferol gartref).

Dylai gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni ynglŷn â dulliau rhianta cadarnhaol adeiladu ar sgiliau rhianta presennol a chryfhau effeithiolrwydd y strategaethau cadarnhaol maen nhw eisoes yn eu defnyddio, o bosibl. Dylai'r sesiynau fynd i'r afael â chred rhai rhieni bod rhai mathau o ymddygiad (e.e. plentyn yn rhedeg i'r ffordd) yn cyfiawnhau defnyddio cosbi corfforol. Mae angen i'r sesiynau hefyd atgyfnerthu

negeseuon ynglŷn ag effeithiolrwydd dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad plant ac addysgu plant am ddiogelwch a pherygl.

Mae gwaith ymchwil o Seland Newydd (Gravitas, 2005) wedi awgrymu bod rhieni'n tybio sut y dylent ymgymryd â'r rôl rianta ar sail eu profiad eu hunain o gael eu rhianta, i raddau helaeth. Yn aml, mae gan rieni "ddiffyg ymwybyddiaeth" wrth rianta a gallent dybio bod rhianta'n reddfol ac yn dod yn naturiol. Efallai na fyddant wedi meddwl llawer am y ffordd maen nhw'n rhianta; myfyrio ar eu hymddygiad eu hunain tuag at eu plant neu ystyried sut mae hyn yn effeithio ar eu perthynas â'u plentyn neu ymddygiad eu plentyn. Mae rhianta ymwybodol yn ymwneud ag annog rhieni i wneud dewisiadau ynglŷn â'r math o rieni maen nhw eisiau bod, arddulliau rhianta a defnyddio dulliau rhagweithiol, cadarnhaol o reoli ymddygiad eu plentyn.

Mae Canllawiau Cymorth Rhianta Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am raglenni rhianta cadarnhaol wedi'u seilio ar dystiolaeth a gwybodaeth arall am ymgysylltu â rhieni, gan gynnwys y rhai hynny ag anghenion penodol.

Mae Arweinlyfr y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar yn rhoi gwybodaeth am ddulliau ymyrraeth gynnar sydd wedi cael eu gwerthuso ac y dangoswyd eu bod yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae'r ymgyrch rhianta cadarnhaol Magu Plant. Rhowch Amser Iddo, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi cyngor ac awgrymiadau defnyddiol i rieni ar sut i annog ymddygiad cadarnhaol.

Gwasanaeth fideo rhad ac am ddim gan Family Lives yw **Parentchannel.tv** a ddyluniwyd i gynorthwyo ac annog rhieni a gofalwyr plant 0-19 oed, gyda chasgliad o fwy na 200 o fideos sy'n mynd i'r afael â chwestiynau a phryderon dydd i ddydd, gan gynnwys rheoli ymddygiad.

Mae Parent Talk Cymru yn cynnig gwybodaeth a chyngor rhad ac am ddim i rieni plant 0-19 oed gan Weithredu dros Blant. Mae'r gwasanaeth sgwrsio ar-lein un i un cyfrinachol yn rhoi rhieni mewn cysylltiad uniongyrchol â hyfforddwr rhianta i gael cyngor ymarferol anfarnol a chefnogaeth emosiynol, tra bod y wefan yn ateb rhai o'r cwestiynau rhianta mwyaf cyffredin.

## Adran 9: Gofynion monitro ac adrodd

### i. Adrodd i'r heddlu

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol (ALI) adrodd yn ôl i'r heddlu ynglŷn â ph'un a oedd yr unigolyn a gafodd gymorth rhianta ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys wedi ymgysylltu â'r cymorth a gynigiwyd.

| Canlyniad | Mater | Camau sy'n ofynnol |
|---|---|---|
| Ni dderbyniodd yr unigolyn y cymorth rhianta a gynigiwyd. | **Ni dderbyniodd yr unigolyn y cynnig.** Os nad yw'r gweithiwr rhianta'n gallu cysylltu â'r unigolyn i drefnu dyddiad ar gyfer y sesiwn 1:1 gyntaf ar ôl 3 wythnos, disgwylir iddo roi gwybod i'r heddlu nad oedd yr unigolyn wedi derbyn y cymorth rhianta a gynigiwyd. | Yr ALI i lenwi ffurflen atgyfeirio (hysbysu) a'i dychwelyd i'r heddlu i roi gwybod iddynt am y diffyg derbyn |
| Nid oedd yr unigolyn wedi ymgysylltu'n briodol | **Nid oedd yr unigolyn wedi ymgysylltu'n briodol â'r sesiynau.** Bydd y gweithiwr rhianta'n defnyddio ei arbenigedd a'i farn broffesiynol i benderfynu a fu ymgysylltiad priodol (e.e. nid oedd yr unigolyn wedi cymryd rhan mewn trafodaeth, nid oedd yn canolbwyntio e.e. ar y ffôn, ac ati). Mae'n rhaid i'r gweithiwr rhianta ystyried amgylchiadau penodol, anghenion ychwanegol a sgiliau ieithyddol yr unigolyn a allai effeithio ar y ffordd y mae'n gallu ymgysylltu â'r sesiynau rhianta. | Yr ALI i lenwi ffurflen atgyfeirio (hysbysu) a'i dychwelyd i'r heddlu i roi gwybod iddynt am ddiffyg ymgysylltu |
| Roedd yr unigolyn wedi cwblhau'r sesiynau 1:1. | **Cwblhawyd y sesiynau 1:1 ac ymgysylltodd yr unigolyn yn briodol**<br>Bydd y gweithiwr rhianta'n defnyddio ei arbenigedd a'i farn broffesiynol i benderfynu a fu ymgysylltiad priodol. Mae'n rhaid i'r gweithiwr rhianta ystyried amgylchiadau penodol, anghenion ychwanegol a sgiliau ieithyddol yr unigolyn a allai effeithio ar y ffordd y mae'n gallu ymgysylltu â'r sesiynau rhianta. | Yr ALI i lenwi ffurflen atgyfeirio (hysbysu) a'i dychwelyd i'r heddlu ar ddiwedd y sesiynau a gynlluniwyd. |

### ii. Monitro lefelau galw ac ymgysylltiad

Er mwyn monitro lefel y galw am y gwasanaeth cymorth rhianta teilwredig a gwerthuso ei effeithiolrwydd, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd i Lywodraeth Cymru ar y canlynol:

- Faint o unigolion a atgyfeiriwyd i awdurdodau lleol gan yr heddlu ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys.
- Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd sydd wedi derbyn y cymorth rhianta[25] a gynigiwyd ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys.
- Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd sydd wedi cwblhau'r sesiynau'n rhannol.
- Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd sydd wedi cwblhau'r sesiynau.
- Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd yr oedd eu holiadur wedi'i safoni[26] yn dangos canlyniad cadarnhaol.
- Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd a ddewisodd sesiynau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nifer yr unigolion a gafodd sesiynau drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl dweud mai dyna fyddai orau ganddynt.
- Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd a gwblhaodd sesiynau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nifer yr unigolion a gafodd gymorth rhianta (drwy'r cyllid grant) yn dilyn cosbi corfforol, na chawsant eu hatgyfeirio gan yr heddlu neu fel rhan o gynllun datrysiadau y tu allan i'r llys.
- Nifer yr unigolion a gafodd gymorth rhianta (drwy'r cyllid grant) nad oedd yn ymwneud â chosbi corfforol.

Gweler y ffurflen fonitro i gael arweiniad ar y data sydd i'w gasglu a fydd yn cael ei defnyddio i gofnodi'r wybodaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r heddlu hefyd i gytuno ar ddull o gasglu data am gyfraddau aildroseddu.

### iii. Adrodd ar y grant

Er mwyn monitro defnydd o'r *Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys*, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am y canlynol:

- Cyflogi gweithiwr rhianta cyfwerth ag amser llawn (FTE)

---

[25] Prif ddiben cymorth rhianta yw cynyddu sgiliau rhianta; gwella'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn; gwella dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad rhieni a chynyddu hyder rhieni er mwyn hyrwyddo lles cymdeithasol, corfforol ac emosiynol plant. Yng nghyd-destun y ffurflen ddata hon, mae'n cyfeirio at y sesiynau 1:1 (gweler adran 8) a drefnwyd ar gyfer yr unigolyn trwy'r grant.

[26] Mae nifer o ddulliau y gellir eu defnyddio i fesur newidiadau o ran ymddygiad y plentyn a lles ac effeithiolrwydd rhieni, a gellir mesur y rhain ar ddechrau a diwedd yr ymyrraeth. Gweler Atodiad C canllawiau Llywodraeth Cymru - [parenting-engagement-and-support-guidance-for-providers.pdf (gov.wales)]

Faint o staff sydd wedi cael eu cyflogi (FTE)? Er enghraifft, os yw cwmni yn ystyried mai 40 awr yw amser llawn, a bod dau weithiwr cyflogedig am 20 awr yr wythnos, byddai'r ddau weithiwr yn cyfateb i 1 FTE.

Nifer y bobl sy'n gweithio ar y Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Nodwch nifer y bobl sy'n cael eu hariannu gan y grant. Er enghraifft os mai'r ateb i'r uchod yw 1 FTE yna gallai hyn fod yn cynnwys 2 swydd rhan amser.

A yw staff sy'n cael eu cyflogi gan y grant yn rhoi cymorth rhianta cyffredinol? Atebwch 'ydyn' neu 'nac ydyn' i ddangos a yw staff sy'n cael eu hariannu (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gan y grant yn darparu unrhyw gymorth rhianta arall.

- Hyfforddiant a goruchwyliaeth

Os gwariwyd cyllid ar ddarparu hyfforddiant, rhowch ddisgrifiad byr o ba hyfforddiant a roddwyd ac i bwy.

- Gweithgarwch arall

Rhowch fanylion byr am unrhyw weithgarwch arall a ariannwyd trwy'r grant.

### iv. Amlder adrodd

Bydd angen i'r ffurflenni rychwantu cyfnodau 6 mis o weithgarwch, fel a ganlyn:

| | **2021/22** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y rhandaliad** | **Cyfnod hawlio** | **Dyddiad cynharaf ar gyfer hawlio** | **Dyddiad olaf ar gyfer hawlio** | **Dogfennau y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda'r ffurflen hawlio** |
| 1 | 01 Rhagfyr 2021 tan 31 Mawrth 2022 | 01 Ebrill 2022 | 29 Ebrill 2022 | Ffurflen fonitro ar gyfer y Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys |
| | **2022/23** | | | |
| 1 | 01 Ebrill 2022 tan 30 Medi 2022 | 01 Hydref 2022 | 30 Hydref 2022 | Ffurflen fonitro ar gyfer y Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys |
| 2 | 01 Hydref 2022 tan 31 Mawrth 2023 | 01 Ebrill 2023 | 29 Ebrill 2023 | Ffurflen fonitro ar gyfer y Grant Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys |

## v. Targedau

Roedd disgwyl i awdurdodau lleol gyrraedd y targedau canlynol yn 2021-22:

- Bod gweithiwr/gweithwyr rhianta priodol[27] ar gyfer y cynllun grant wedi cael ei gyflogi/eu cyflogi cyn 20 Mawrth
- Bod llwybr atgyfeirio priodol gyda'r heddlu wedi'i sefydlu cyn 20 Mawrth
- Sefydlu llwybr atgyfeirio priodol gyda'r heddlu

Roedd disgwyl i awdurdodau lleol gyrraedd y targedau canlynol yn 2022-23 a thu hwnt:

- Bod pob atgyfeiriad gan yr heddlu wedi cael sylw a chymorth rhianta wedi'i ddarparu o fewn 3 mis, neu'n unol ag amserlen hirach yn amodol ar drafodaeth gyda'r heddlu.
- Bod gwybodaeth fonitro yn cael ei darparu i Lywodraeth Cymru, bob chwe mis erbyn 30 Hydref a 29 Ebrill bob blwyddyn.

[27] Gellir bod yn hyblyg ynglŷn â sut mae'r rôl gweithiwr rhianta a ddisgrifir yn y canllawiau hyn yn cael ei chyflawni ym mhob awdurdod lleol. Gallai unigolyn penodol gael ei gyflogi neu gallai manylion penodol y rôl gael eu hychwanegu at swydd-ddisgrifiadau unigolion sydd eisoes yn cael eu cyflogi yn yr awdurdod lleol. Gweler Adran 2 (i) i gael rhagor o wybodaeth.

## Adran 10: Cyfeiriadau

Asmussen, K, Feinstein, L. Martin, J. a Chowdry, H. (2016) "Foundations for Life: What works to support parent child interaction in the early years" Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar https://www.eif.org.uk/files/pdf/foundations-for-life.pdf [Cyrchwyd ym mis Medi 2021]

Berlin, L.J, Dodge, K.A. a Reznick,J.S (2013) "Examining Pregnant Women's Hostile Attributions About Infants as a Predictor of Offspring Maltreatment" JAMA Pediatr. 2013 Jun; 167(6): 549–553 Examining Pregnant Women's Hostile Attributions About Infants as a Predictor of Offspring Maltreatment (nih.gov) [Cyrchwyd ym mis Medi 2021]

Bunting, L., Webb, M. a Healy, J. (2008) "The 'Smacking Debate' in Northern Ireland – Messages from Research", Barnardo's Cymru, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon ac NSPCC Gogledd Iwerddon The 'Smacking Debate' in Northern Ireland - Messages from Research (niccy.org) [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

Carter-Davies, L. a Bristow, D. (2018) "Parental Physical Punishment: Child Outcomes and Attitudes" Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru PPIW-REPORT-Parental-Physical-Punishment-Child-Outcomes-and-Attitudes_fo....pdf (wcpp.org.uk) [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (2006) "Foundations for Life: What works to support parent-child interaction in the early years?", Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (eif.org.uk) Foundations for Life: What works to support parent-child interaction in the early years? Foundations for Life: What works to support parent-child interaction in the early years? | Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (eif.org.uk) [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

Ghate, D., Hazel, N., Creighton, S., Finch, S. a Field, J. (2003) The National Study of Parents, Children and Discipline in Britain. Llundain: Y Biwro Ymchwil Polisi

Gravitas Research and Strategy (2005) Strategies with Kids – Information for Parents (SKIP) Research Report, Paratowyd ar gyfer y Ganolfan Ymchwil a Gwerthuso Cymdeithasol adroddiad ymchwil SKIP [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

Halpenny, A., Nixon, E. a Watson, D. (2010) "Parents' Perspectives on Parenting Styles and Disciplining Children", Cyfres Ymchwil y Strategaeth Blant Genedlaethol, Swyddfa'r Gweinidog Plant a Materion Ieuenctid, Iwerddon 2010-Halpenny-Nixon-Watson-Parents-Perspectives-on-parenting-styles.pdf (tcd.ie) [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

Heilmann, A., Kelly, Y. a Watt, R.G. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children" Adroddiad a gomisiynwyd gan NSPCC yr Alban, Children 1st, Barnardo's yr Alban a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, mis Tachwedd 2015 Equally Protected? a review of the evidence on the physical punishment of children (nspcc.org.uk) [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

Heilmann et al (2021) "Physical punishment and child outcomes: a narrative review of prospective studies" The Lancet ADOLYGIAD| CYFROL 398, RHIFYN 10297, TUD.(AU) 355-364, GORFFENNAF 24, 2021

Holden, G., Brown, A Baldwin, A., a Caderao, K. (2014) "Research findings can change attitudes about corporal punishment" Child Abuse and Neglect, Cyfrol 38, Rhifyn 5, mis Mai 2014, Tudalennau 902–908

Moullin, S. Waldfogel, J. a Washbrook, E. (2014) "Baby Bonds: Parenting, attachment and a secure base for children", Ymddiriedolaeth Sutton

O’Connor, T. a Scott, S. (2007) "Parenting and outcomes for children", Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Rees, C. (2007) “Childhood attachment”, British Journal of General Practice. 2007 Tachwedd 1; 57(544): 920–922

Robertson. L. (2017) Literature review on outcomes of parental discipline styles, evidence on effective parenting styles and the international experience of prohibition of physical punishment in law, Canolfan Ymchwil Trosedd a Chyfiawnder yr Alban SCCJR Literature Review on outcomes of parental discipline styles, evidence on effective parenting styles and the international experience of prohibition of physical punishment in law – SCCJR [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

Smith, A.B., Gollop, M., Taylor, N.J. a Marshall, K. (2004) “The Discipline and Guidance of Children: A Summary of Research”, Swyddfa’r Comisiynydd Plant, Wellington, 2004 MSD SKIP Book 009 (occ.org.nz) [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

Stokes, K. a Sheehan, N. (2005) “Strategies with Kids Information for Parents (SKIP) Research Report”, Gravitas Research and Strategy Ltd, Cyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol, Seland Newydd

Taylor, C.A. Al-Hiyari, R., Lee, S.J., Priebe, A., Guerrero, L.W. a Bales, A. (2016) “Beliefs and ideologies linked with approval of corporal punishment: a content analysis of online comments”, Health Educ Res 2016 Aug;31(4):563-75

Llywodraeth Cymru (2014) “Attitudes to parenting practices and child discipline”, Ymchwil gymdeithasol Rhif 13/2014 Agweddau at arferion rhianta a disgyblu plant (llyw.cymru) [Cyrchwyd ym mis Awst 2021]

| Atodiad 1 – Dyrannu cyllid i awdurdodau lleol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2021/2022 | | | 2022/23, 2023/24, 2024/25 | | |
| **Awdurdod Lleol** | **% y plant sy'n byw mewn amddifadedd incwm yng Nghymru** | **Adnodd CALI awgrymedig** | **Cyllid cyfrannol ar gyfer yr adnodd** | **Cyfandaliad a ddyrennir** | **Cyfanswm a ddyrennir** | **Cyllid cyfrannol dangosol ar gyfer yr adnodd** | **Cyfandaliad dangosol a ddyrennir** | **Cyfanswm dangosol a ddyrennir** |
| **Blaenau Gwent** | 3% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 5% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Caerffili** | 7% | 1 | 15,000 | 10,000 | 25,000 | 40,000 | 5,000 | 45,000 |
| **Caerdydd** | 13% | 1.5 | 22,500 | 10,000 | 32,500 | 60,000 | 5,000 | 65,000 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 6% | 1 | 15,000 | 10,000 | 25,000 | 40,000 | 5,000 | 45,000 |
| **Ceredigion** | 2% | 0.5 | 7,500 | 10,000 | 17,500 | 20,000 | 5,000 | 25,000 |
| **Conwy** | 3% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Sir Ddinbych** | 3% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Sir y Fflint** | 4% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Gwynedd** | 3% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Ynys Môn** | 2% | 0.5 | 7,500 | 10,000 | 17,500 | 20,000 | 5,000 | 25,000 |
| **Merthyr Tudful** | 2% | 0.5 | 7,500 | 10,000 | 17,500 | 20,000 | 5,000 | 25,000 |
| **Sir Fynwy** | 2% | 0.5 | 7,500 | 10,000 | 17,500 | 20,000 | 5,000 | 25,000 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 5% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Casnewydd** | 6% | 1 | 15,000 | 10,000 | 25,000 | 40,000 | 5,000 | 45,000 |
| **Sir Benfro** | 4% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Powys** | 3% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 9% | 1 | 15,000 | 10,000 | 25,000 | 40,000 | 5,000 | 45,000 |
| **Abertawe** | 8% | 1 | 15,000 | 10,000 | 25,000 | 40,000 | 5,000 | 45,000 |
| **Torfaen** | 3% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bro Morgannwg** | 3% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Wrecsam** | 4% | 0.75 | 11,250 | 10,000 | 21,250 | 30,000 | 5,000 | 35,000 |
| **Cyfanswm** | | | | | 482,500 | | | 810,000 |